

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd ar Ionawr 18fed
2017 am 7.00 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council meeting held on 18th January 2017 at
7.00pm**

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd), Maldwyn Williams, Dafydd Pritchard, Alwena Roberts, Myrddin Roberts a Geraint Parry (Clerc)

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng./Clr. Lewis Davies, Carwyn Jones a Alwyn Rowlands

3. Datgan Ddiddeiddordeb/Declaration of interest

- Cyng. M Roberts ac A Roberts barn sy'n rhagfarnu ar drafodaeth hawddfaint Gwelfryn / *Clr. M Roberts a A Roberts prejudicial interest on the discussion of easement Gwelfryn.*
- Cyng. D Pritchard barn sy'n rhagfarnu ar drafodaeth torri tir comin ger Pensarn / *Clr. D Pritchard prejudicial interest on the discussion about the cutting of the common land by Pensarn*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain o Ragfyr fel rhai cywir gan Cyng. M Williams, eilio gan Cyng. D Pritchard. / *Minutes of the previous meeting held on 21st December were accepted as accurate by Clr. M Williams, seconded by Clr. D Pritchard.*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

- 5.1 Diffibrilwyr / Defibrillators** - Pwyllgor y Neuadd wedi gwneud cais trwy Grant Ward Seiriol. Dilyn trafodaeth ac os yw'r cais yn llwyddiannus, penderfynwyd yn unfrydol y byddai'r Cyngor Cymuned yn derbyn cyfrifoldeb y diffibriliwr ar ffurf costau rhedeg ac yswiriant ond mae angen gael enghreifftiau o'r costau yma. / *Village Hall Committee have submitted an application via the Seiriol Ward grant. Following a discussion and if the grant is accepted, it was unanimously decided that the Community Council would accept responsibility of the defibrillator by way of running cost and insurance, but need to obtain examples of these costs.*
- 5.2 Arolwg ciosg gan BT / BT Kiosk Survey** - Dilyn cais i fabwysiadu'r ciosg gyferbyn ar dafarn, BT wedi ymateb, ac i'r Cyngor Cymuned gysylltu ag adran Cynllunio'r Cyngor Sir, sydd yn coladu ymatebion. Byddai BT yn cysylltu â ni i symud pethau ymlaen o ran mabwysiadu. / *Following an application to adopt the kiosk opposite the pub, BT have advised the Community Council to consult with the Planning Department who will collate responses. BT would the contact us to take things forward regarding adoption.*
- 5.3 Lôn Glanrhyd / Glanrhyd Lane** - Cyngor Sir wedi cytuno i godi arwydd "Anaddas i Gerbydau llydan" ar geg y lôn / *County Council has agreed to erect a sign "Unsuitable for wide vehicles" at the mouth of the road.*
- 5.4 Cae Chwarae Plant / Children's Playing Field** - wedi derbyn amcangyfrif ar gyfer y gwaith. Clerc i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â pholion plastig. / *Received an estimate cost for the work. Clerk to obtain further information regarding plastic poles.*
- 5.5 Lôn Hafoty / Hafoty Road** - Clerc wedi ysgrifennu i Rhun ap Iorwerth a Albert Owen ynglŷn â graeanu'r ffordd - disgwyl ymateb. Ymateb gan y Cyngor Sir y bydd y manau pasio yn cael ei atgyweirio. / *Clerk has consulted with Rhun ap Iorwerth and Albert Owen regarding gritting the road - awaiting response. Received response from the County Council that the passing places will be repaired.*
- 5.6 Coeden yn iard yr Ysgol / Tree in the School playground** - coeden yn iard yr Ysgol ar fin syrthio wedi ei glirio / *Tree in the school playground that was about to fall has been cleared.*
- 5.7 Parcio yn Ponc y Felin / Parking at Ponc y Felin** - Parcio ger Ponc y Felin yn beryglus i ddefnyddwyr y ffordd. Penderfynwyd chwilio am unrhyw grant perthnasol a gofyn i'r Cyngor Sir am gyngor / *Car parking by Ponc y Felin is dangerous to road users. It was decided to search for any applicable grant and ask the County Council for advice.*

6. Adroddiad gan y Cyngorwyr/Report by the County Councillor

Dim adrodd y tro yma / *No reports on this occasion*

7. Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications

Dim cais i drafod / *No application to discuss*

8. Fynwent Llaniestyn / Llaniestyn Cemetery

Dwr Cymru wedi gosod dŵr i'r fynwent. Clerc i ofyn am adroddiad diweddaraf ynghylch y gwaith a chael cynllun y fynwent gan y Cyngor Sir. / *Clerk to request latest report regarding the work and a cemetery plan from the County Council.*

9. Tir Comin/Common Land

9.1 Hawddfrait Gwelfryn - dilyn trafodaeth ar y dogfennau swyddogol, a dderbyniwyd gan ên cyfreithiwr. / *Gwelfryn easement - discussion on the official documents received from our solicitor were agreed.*

9.2 Glyndŵr - fod deiliad y tŷ wedi gosod peipen dwr ar draws y tir comin heb hawddfrait / *The householder has installed a water pipe across the common land without an easement.*

9.3 Comin Llaniestyn / *Llaniestyn Common Land* - cytunwyd i ddilyn i fyny'r hawddfrait y beipen dwr a osodwyd ar draws y comin tuag at y padog yn Tŷ Ben / *It was agreed to follow up the easement regarding the water pipe installed across the common towards the paddock at Tŷ Ben.*

10. Datgan Diddordeb gan Aelodau / Declaration of Interest by Members

Esboniodd y Clerc cynnwys y nodyn briffio a dderbyniwyd gan Pwyllgor Safonau'r Cyngor Sir. Dilyn trafodaeth, cafodd y briff ei dderbyn a dosbarthwyd copi caled i'r holl Gynghorwyr yn bresennol / *Clerk explained the contents of the Briefing note received from the Standards Committee of the County Council. Following discussion the brief was unanimously accepted and a hard copy was distributed to all Councillors present.*

11. Cyfrifon/Accounts

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Cyflog y Clerc Hydref i Ragfyr / *Clerks salary October to December - £366.90*

Cyllideb a gwariant / Budget and expenditure

Clerc yn egluro gwariant a incwm hyd at ddiwedd chwarter 3. Hefyd trafodwyd a chytunwyd y gyllideb mewn perthynas â'r cyllid presennol / *Clerk explained expenditure and income up to the end of quarter 3. Also discussed and agreed the budget with regards to the current finances.*

Praesept / Precept

Dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio codi'r praesept ar gyfer 2017/18, cafodd ei gynnig gan Cyng. M Williams, eiliwyd gan Cyng. M Roberts. / *Following discussions it was decided not to increase the precept for 2017/18, proposed by Clr M Williams, seconded by Clr M Roberts.*

12. Gohebiaeth/Correspondence

- Cyngor Sir/County Council – Pwyllgor Safonau / *Standards Panel*
- Cyngor Sir/County Council – Etholiadau / *Elections*
- Un Llais/One Voice Wales – cyfarfod 19/01/17 / *meeting*
- Cyngor Sir/County Council – praesept / *precept 2017/18*

13. UFA/AOB:

13.1 Ffens a giatau galfanedig yr Ysgol wedi cael ei dwyn. Adroddwyd bod un giât wedi ei adennill yn Llanfaes. / *Galvanised fence and gates have been stolen from the School. Its reported that a gate has been recovered in Llanfaes.*

13.2 Cyng. M Roberts yn adrodd fod tyllau ar y ffordd ger Bryn Poeth / *Clr. M Roberts reports of holes in the road by Bryn Poeth*

13.3 Maes Chwarae Plant - derbyniwyd dyfynbris ar gyfer trwsio ardal feddal o gwmpas y swings. Cytunwyd i ymchwilio dewisiadau eraill / *Children's Play Area - quote received for the repair of soft area around the swings. It was agreed to research other alternatives*

13.4 Cyng. M Roberts yn argymhell bod angen i ni baratoi gwybodaeth cyn yr ymchwiliad cyhoeddus Llwybr Tai Bach. Perchennog Cherry Tree Cottage wedi cau'r fynedfa i'r llwybr troed / *Clr. M Roberts recommends that we need to prepare information prior to the public enquiry Llwybr Tai Bach. The owner of Cherry Tree Cottage has closed the entrance to the footpath.*

13.5 Cyng. M Williams yn adrodd fod Mr O Parry wedi gofyn am ganiatâd i dorri tir comin ger Pensarn. Penderfynwyd trefnu ymweliad safle cyn gwneud penderfyniad. / *Clr. M Williams reports that Mr. O Parry, Pensarn has requested permission to cut the common land. It was decided to arrange a site visit prior to making a decision.*

13.6 Trafodwyd yr etholiadau ym mis Mai a'r angen llenwi'r seddi gwag ar y Cyngor Cymuned / *Discussed the elections in May and the need to fill empty seats on the Community Council*

13.7 Cyng. R Hughes yn pwysleisio'r angen i drefnu cyfarfodydd arbennig i drafod materion o hawddfrait ar dir comin ac i drafod Fynwent y Plwyf Llaniestyn / *Clr. R Hughes emphasized the need to arrange special meetings to address matters of easement on common land and to discuss Llaniestyn Community Cemetery.*

14. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.15 o'r gloch. Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 15/02/17 am 7.30 yn Capel Peniel

There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9.15pm. Next meeting to be held on 15/02/17 at 7.30pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad